Cyngor Cymuned Ganllwyd

Hydref 8fed 2025

**Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,C.Dixon,S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths, G.Jones a C.Edwards.

**Cofnodion Medi 2025.**

Cynnigwyd yn gywir gan S.Jones ac eilwyd gan S.Roberts.

**Datagan diddordeb mewn un rhyw fater a drafodir.**

Dim

**Materion yn codi.**

Go safe- Mae'r swyddogion yn y broses o wneud y pentref yn safle Go Safe byw, bydd swyddog lleihau damweiniau yn mynychu'r pentref i gwblhau'r broses hon. Bydd gorfodi deddfau cyflymder wedyn yn dilyn.

Modur ger y toiled- mae'n debyg fod perchennog y modur wedi taro'n wael. Bydd ffrindiau y person yn cymeryd camau i symud y cerbyd.

Ffordd Cefndeuddwr- mae'r gwaith yn yr ardal wedi cychwyn.

**Cynghorwr Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Biniau Halen.**

Cynghorwyr i gysylltu a'r clerc os fydd angen llenwi unrhyw fin cyn y gaeaf.

**Caru Coed y Brenin.**

Adroddodd y Cynghorydd Morris fod cyfarfod wedi cymeryd lle gyda swyddogion CNC uwch er na wnaed unrhyw gynnydd gwirioneddol mewn cael gwybodaeth a allai helpu'r grŵp i gymryd drosodd y ganolfan.

Mae'n amlwg bod swyddogion uwch yn CNC yn newid y meini prawf er mwyn llwyddo mewn broses tendro.

Ymddengys bod CNC am i'r tendr llwyddiannus gael yr opsiwn o gymryd dros y safle cyfan a llwybrau beiciau i gyd er gwaethaf eu gwrthod mewn cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat blaenorol y byddai'r cyfleusterau hyn yn cael eu cymryd drosodd gan sefydliadau trydydd parti.

Cynhelir y broses dendro yn gynnar y flwyddyn nesaf, bydd gan CCYB gyfarfod cyn y cyfnod hwn i benderfynu a fyddant mewn sefyllfa i ariannu a chyflwyno tendr.

Wedi clywed yr wybodaeth hyn, mae cyngor cymunedol o'r farn bod CNC yn anwybyddu'n fwriadol, eu bod yn celu gwybodaeth a allai helpu unrhyw broses dendro.

Mae cysondeb y wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn amrywio o un cyfarfod i'r llall. Fel corff cyhoeddus sy'n atebol i'r cyhoedd, mae cyngor y gymuned o'r farn bod uwch reolwyr CNC, yn lleol ac yn genedlaethol, yn methu â gwneud eu rolau o sicrhau bod y cyhoedd o leiaf yn cael mynediad rhydd i Goed y Brenin.

**Adroddiad tai lleol.**

Mae swyddogion Grwp Cynefin wrthi’n paratoi adroddiad ynglyn y sefyllfa tai yn ardal y Ganllwyd.

Gobeithir y bydd yr adroddiad wedi cwblhau yn y mis nesaf.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc Medi 2025

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4712.31 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim. | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £0.40 |
| Cyngor Gwynedd awdit | £462.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £4149.91 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Grant 'Gwynedd Ni'**

Mae'r cyngor wedi cysylltu a Cwmni Signs Workshop i archebu 2 fainc eistedd a byrddau arwyddion i gymeryd lle y rhai presennol.

**Materion cymunedol.**

Mae cwynion wedi cael eu derbyn gan y cyngor am geir sy'n rhwystro mynediad i'r lay-by y tu allan i Dy Ganllwyd.

Mae'r Clerc i ymgynghori â'r adran Priffyrdd.